CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER 16 EBRILL 2014 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng I Roberts JP, K Humphreys, R G Parry, A Michael, I Rowlands, S Parry, C Ll Thomas, D Rees (Cyngor Sir), Mr H N Evans

YMDDIHEURIADAU
Cyng N Highley, E Huws, N Roberts (Cyngor Sir)

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts JP. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.

DATGAN DIDDORDEB - Cyng D Rees (Iorwerth Arms)

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 19 Chwefror 2014
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 19 Chwefror 2014, Cyng C Ll Thomas yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio.

Dechreuwyd gyda adroddiad gan Mr Neville Evans am y Iorwerth Arms. Penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus yn y pentref/ardal i weld os oes cefnogaeth i'r syniad o geisio achub y ty tafarn lleol (sydd ar werth) ar gyfer adnodd i'r gymuned (hy ty tafarn, siop, ayyb, ayyb) ac i asesu beth yw'r posibiliadau (a rhwystrau) o ran cael cefnogaeth ymarferol ac ariannol ar gyfer priosect o'r fath. Bydd Mr Evans yn cysylltu a Rhun ap Iorwerth, Menter Mon a Cymdeithas Tai eryri i symud ymlaen. Hefyd gofynwyd i'r Clerc datgan diddordeb i'r asiant o dan y "Community Right to Bid"

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Llwybr Cyhoeddus Lon Bryngwran Ffarm - Pen Rhiw - Bydd y Clerc yn trefnu i'r Cyngor Sir cysylltu a Cyng A Michael
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Penderfynwyd ystyried gosod railings newydd round y gofeb, lampiau newydd ac ail wneud y llythrennau ar y gofeb. Bydd y Cadeirydd yn cael prisiau (a'r Clerc am y lampiau). Ar ol cael prisiau bydd y Clerc yn cyflwyno cais ariannol i'r Heritage Lottery Fund.
Twnneli Helyg - Penderfynwyd symud ymlaen gyda un twnnel helyg. dywedodd y Clerc bod y Cyngor wedi derbyn grant am £1000.
Iorwerth Arms - Gweler uchod.
Sedd Wag - Bydd y dyddiad cau am ceisiadau ar y 22 Ebrill.
Plaque Eisteddfod Mon - mewn llaw
Clwb Cinio - pendefynwyd peidio symud ymlaen oherwydd diffyg diddordeb

LLOFNOD (Cadeirydd) 14 Mai 2014

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON

Cynllunio

16C102A/SCO cais am farn sgopio ar gyfer dymchwel yr adeiladau presennol a chodi 5 adeilad newydd yn eu lle yn Gernant, Bryngwran - dim sylwadau

16C179A cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Llain Feurig, Bryngwran - dim sylwadau

16C198 cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Penterfyn, Engedi - dim sylwadau

Plas Llechylched, Bryngwran (gwybodaeth yn unig)

Cyllid

Grantiau i Fudiadau Gwirfoddol - Penderfynwyd cyflwyno cais ar gyfer y maes chwarae.

GOHEBIAETH YCHWANEGOL

H N Evans - Pentref Bryngwran - gweler uchod

MATERION ARIANNOL

Penderfynwyd talu y canlynol:

Costau y Clerc £118.00

Anglesey Computer Solutions £520.00

Ian Lloyd £96.60 (gwaith ar y maes chwarae)

Ian Lloyd £326.64 (gwaith ar y maes chwarae)

Cyng K Humphreys yn cynnig a Cyng S Parry yn eilio

MATERION ERAILL

Mae aelodau y Clwb Ieuenctid wedi cynnig peintio y cysgodfannau bws ac yn gofyn am gwirdoddolwr i helpu. Cynigodd y Cadeirydd cael prisiau am paent ac ymlaen.

Carreg Filltir - mae'r carreg filltir yn y pentref yn fler ac angen gwaith adfer. Cynigodd y cadeirydd cael pris am y gwaith.

LLOFNOD (Cadeirydd) 14 Mai 2014